

Papur Cwmpasu ar Strwythurau Cynghori yn y Dyfodol

Pwrpas

Mae'r Papur hwn i'r Cyngor yn ystyried y syniadau diweddaraf ynghylch siâp a chwmpas strwythurau cynghori Llywodraeth Cymru ar fusnes a'r economi yn y dyfodol. Fe'i luniwyd yn dilyn y trafodaethau â'r Gweithgor Gweithredol a chais y Prif Weinidog am bapur cwmpasu ar gyfer cyfarfod y Cyngor. Gofynnir am farn Aelodau'r Cyngor.

Cyd-destun a her

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod allan ei chynllun pum mlynedd ar gyfer darparu mwy o swyddi gwell trwy economi decach a chryfach, gwella a diwygio gwasanaethau cyhoeddus a chreu Cymru unedig, cysylltiedig a chynaliadwy. Bydd gan gyngor ac arbenigedd allanol priodol ran bwysig wrth lunio polisiau, helpu i roi'r polisiau hynny ar waith ac wrth sicrhau canlyniadau da.

Gweithgarwch heddiw

Mae Llywodraeth Cymru'n dibynnu ar gyngor ar amrywiaeth o feysydd polisi economaidd a busnes. Mae hyn wedi datblygu dros amser i ymateb i nifer o sbardunau gwahanol:

- (i) yr awydd am gyngor ac arbenigedd gan y sector preifat a ffynonellau allanol eraill – am nad ydynt wastad ar gael o fewn y gwasanaeth sifil;
- (ii) fel ffordd i gael gafael ar syniadau a meddyliau newydd fydd yn arwain at bolisiau gwell;
- (iii) i gefnogi trefniadau llywodraethu a sicrhau;
- (iv) fel ymateb i'r pwerau sydd newydd eu cael gan greu cyfleoedd i ddatblygu polisiau mewn meysydd newydd a thechnegol lle ceir angen am arbenigedd allanol;
- (v) o ganlyniad i'r argyfwng ariannol ac i baratoi'r tir ar gyfer adfer yr economi trwy ofyn am help partneriaethau cymdeithasol i edrych ar bynciau penodol.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwmo i gydnabod a gwerthfawrogi busnesau ac ymgynghori â nhw, a cheisio meithrin partneriaeth â'r partneriaid cymdeithasol er lles economi a chymdeithas Cymru.

Ar ddechrau'r Llywodraeth hon, cyfarfu'r Prif Weinidog â Gweithgor Gweithredol y Cyngor ac mae wedi gofyn barn ar sut y dylid bwrw ymlaen â'r ymgysylltu hwn â'r partneriaid cymdeithasol.

Sail creu'r Cyngor yw Adran 75 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n gofyn i Weinidogion Cymru lunio cynllun sy'n esbonio sut y maen nhw am ystyried buddiannau busnesau Cymru wrth iddyn nhw arfer eu swyddogaethau.

Dywed y Cynllun y bydd Gweinidogion Cymru'n cynnal Cyngor o dan gadeiryddiaeth y Prif Weinidog i edrych yn strategol ar yr heriau a'r cyfleoedd i economi Cymru a sut y gallai Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid cymdeithasol gydweithio i wynebu'r heriau a'r cyfleoedd hynny. Caiff y Cyngor sefydlu gweithgorau hefyd i wneud darnau penodol o waith a chaiff penodi unigolion sydd â'r arbenigedd perthnasol o blith y partneriaid cymdeithasol i'w gynghori yn ei gyfarfodydd ac i wasanaethu ei weithgorau.

Yn ogystal â'r ystyriaethau uchod, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith yn adolygu'r cyrff cynghori ar fusnes a'r economi, yn ymchwilio i'r cyfleoedd i ddiwygio'r trefniadau cyfredol ac yn edrych lle gallai newid fod yn ddefnyddiol gan ddod â mwy o alinio.

Cyfarfu Ysgrifennydd y Cabinet â Gweithgor y Cyngor i drafod y pynciau hyn gan ddechrau trafodaethau hefyd â Chadeiryddion y Paneli Sectorol a Byrddau'r Ardaloedd Menter am yr egwyddorion allai fod yn sail i ffordd newydd o weithio.

Prif Ystyriaethau

Ar ddechrau Llywodraeth newydd, mae cyfle i adolygu ac adfywio ein ffordd o weithio i wneud yn siŵr ei bod yn ateb y gofyn i wynebu heriau Rhaglen Lywodraethu'r Llywodraeth newydd.

Mae cyfle hefyd inni edrych sut y gallen ni ailddylunio ein trefniadau cynghori a chyflawni fel rhan o'n gwaith ar ein pedair strategaeth drawsbynciol ac ar bennu'n blaenoriaethau economaidd.

Bydd Gweinidogion Cymru'n gweithio i ddatblygu pedair strategaeth drawsffiniol a fydd yn gosod y fframwaith i Lywodraeth Cymru allu cyflawni ei blaenoriaethau: Cymru ddiogel a ffyniannus; Cymru iach a bywiog; Cymru uchelgeisiol o ddysgwyr; a Chymru unedig a chysylltiedig.

Mae angen mynd i'r afael â rhai o'r heriau mewn ffordd newydd, naill ai o ran y gweithgareddau rydyn ni'n eu cynnal i gyflawni ein hamcanion neu o ran y strwythurau rydyn ni'n eu creu i helpu i gyflawni'r blaenoriaethau hyn.

Mae'r Prif Weinidog wedi'n herio ni i weithio gyda'n gilydd i ffeindio ffyrdd arloesol o sicrhau newid yn yr holl feysydd hyn er lles pobl Cymru.

Hefyd, yn gynharach y mis hwn, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol wedi pennu ffordd newydd ymlaen i lywodraeth leol yng Nghymru. Byddai hynny'n golygu cadw'r awdurdodau lleol ond bod gwasanaethau allweddol yn cael eu darparu ar lefel ranbarthol. Bydd hyn yn cryfhau awdurdodau lleol o ran staffio a chyllid ac yn gwneud yn siŵr bod gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u darparu ar y raddfa briodol.

Awgrymwyd dau fodel ar gyfer darparu'r gwasanaethau hyn. Y naill yn seiliedig ar Ddinas-Ranbarthau gan ymdrin â thrafnidiaeth strategol, cynllunio defnydd tir a datblygu economaidd, a'r llall yn cyfateb i ffiniau'r byrddau iechyd, ar gyfer gwasanaethau fel gwella addysg, gwasanaethau cymdeithasol a diogelu'r cyhoedd.

Y Camau Nesaf

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith yn parhau i adolygu'r strwythurau cynghori o fewn ei bortffolio a bydd yn gwneud argymhellion ar gyfer y dyfodol.

Mae'r partneriaid yn gytûn bod angen eglurder ynghylch y strwythurau a'r hyn a ddarperir yn ogystal â threfniadau symlach a hwylusach. Er hynny, nid oes unfrydedd ynghylch eu hunion ffurff.

Y rheswm am hynny'n rhannol yw'r ffaith y dylai strwythurau adlewyrchu blaenoriaethau a chanlyniadau a bydd ymrwymiad y Llywodraeth i ddatblygu pedair strategaeth drawsbynciol yn ystyriaeth bwysig wrth benderfynu ar drywydd y dyfodol.

I fwydo hynny, mae'r Prif Weinidog wedi gwahodd aelodau'r Cyngor i ddweud eu dweud. Mae papurau wedi dod i law gan TUC Cymru a Masnach Cymru, er mwyn i'r Cyngor allu eu hystyried heddiw.

Pwyntiau trafod

- Beth yw'r egwyddorion craidd ddylai fod yn sail ar gyfer gweithio yn y dyfodol?
- Pa feysydd y mae'r Cyngor yn cytuno / anghytuno arnyn nhw?
- Ble welwch chi gyfleoedd i atgyfnerthu'r strwythurau presennol ac i ymgysylltu'n well?
- Sut gallwn ni wynebu'r her o symleiddio'n ffordd o weithio ond gan barhau i ymgysylltu'n eang a manteisio ar gyngor arbenigol?